Dogfen ir Cyhoedd

# PWYLLGOR ARCHWILIO

## Dydd Llun, 27 Ebrill 2015 (2.00 o'r gloch)

Gweler ynghlwm adroddiad (Eitem 9) sydd wedi'i ddynodi fel adroddiad "I DDILYN" ar raglen y Pwyllgor Archwilio:

**8** **ARCHWILIO ALLANOL - CYNLLUN ARCHWILIO BLYNYDDOL**

Eitem wedi'i ohirio.

**9** **ADRODDIAD ADOLYGIAD ARCHWILIO MEWNOL - DIESEL ARFOROL**
(Tudalennau 1 - 4)

Derbyn adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaeth (Adfywio Economaidd a Chymunedol) ar gynnydd ar ymateb i'r adolygiad gan Archwilio Mewnol.

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **ADRODDIAD I:** | **Pwyllgor Archwilio** |
| **DYDDIAD:** | **27 Ebrill 2015** |
| **PWNC:** | **Diweddariad ar yr Ymateb i'r Adolygiad Archwilio Mewnol – Diesel Arforol** |
| **AWDUR:**<br>**Teitl:**<br>**Rhif Ffôn:**<br>**E-bost:** | **Dylan Williams**<br>**Pennaeth Adfywio Economaidd a Chymunedol**<br>**01248 752499**<br>**DylanWilliams@ynysmon.gov.uk** |
| **PWRPAS:** | **Er gwybodaeth** |

## 1. PWRPAS YR ADRODDIAD

Rhoi diweddariad i Aelodau'r Pwyllgor Archwilio ar yr ymateb a'r camau a gymerwyd yn dilyn yr Adolygiad Archwilio Mewnol (Diesel Arforol), Tachwedd 2014.

## 2. CEFNDIR

Mae CSYM yn darparu cyfleusterau fel y gellir cynnig gwasanaeth i bysgotwyr masnachol a badau masnachol bychan a chanolig eu maint brynu diesel arforol. Danfonir y diesel mewn cerbydau 18000 litr a'i storio mewn tanciau storio yn Noc Pysgod Caergybi a harbwr Amlwch. Mae yn Noc Pysgod Caergybi dri o danciau sy'n dal 56,000 litr ond un yn unig sy'n cael ei ddefnyddio ar hyn o bryd. Mae gan Harbwr Amlwch un tanc sy'n dal 25,000 litr. Mae'r pedwar swyddog sy'n gweithio yn y Gwasanaeth Arforol yn gyfrifol am ddosbarthu diesel arforol a chadw cofnodiadau.

**Roedd yr adolygiad Archwilio wedi'i gyfyngu i'r prosesau a'r gweithdrefnau ar gyfer derbyn, storio, dosbarthu, paratoi anfonebau a chasglu arian ac am ddarparu derbynebion a chofnodi incwm yn Ledjer Cyffredinol y Cyngor mewn perthynas â Diesel Arforol.** Roedd yr adolygiad yn canolbwyntio'n bennaf ar gofnodiadau Diesel Arforol ar gyfer 2013-2014 er y gwnaed rhywfaint o waith dadansoddi ar y tair blynedd diwethaf.

Nodwyd nifer o gasgliadau yn yr Adroddiad Archwilio Terfynol (Tachwedd 2014) a oedd yn sail ar gyfer yr Argymhellion. Mae'r argymhellion wedi cael eu hystyried ac wedi cael sylw gan y swyddogion yn ystod y misoedd diwethaf.

## 3. CYNNYDD HYD YMA

| Cyf | Argymhellion | Cynnydd hyd yma | Statws |
|---|---|---|---|
| 1 | Dylai'r trefniadau caffael ar gyfer tanwydd gan gynnwys diesel arforol gydymffurfio gyda Rheolau Gweithdrefn Contractau'r Cyngor | Gofynnwyd am arweiniad gan y Tîm Caffael Corfforaethol<br><br>Rhaid defnyddio'r System | Cwblhawyd |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | Gaffael Genedlaethol i brynu diesel arforol o 1 Mai 2015. | |
| 2 | Dylid cofnodi'r gweithdrefnau ar gyfer cofnodi lefelau'r stoc o ddiesel arforol yng Nghaergybi ac Amlwch. Dylai'r gweithdrefnau gynnwys cofnodi lefelau tanwydd yn y tanciau cyn ac ar ôl dosbarthu tanwydd yn y ddau safle. | Caiff y tanciau tanwydd yng Nghaergybi ac Amlwch eu dipio yn awr bob mis (cychwynnodd hyn ar 31 Mawrth 2015).<br><br>Mae Taflenni Log wedi cael eu diwygio er mwyn caniatáu ar gyfer cofnodi lefelau'r stoc.<br><br>Comisiynwyd adroddiad ar gyflwr mesuryddion y tanciau. | Cwblhawyd<br><br>Cwblhawyd<br><br>Yn mynd rhagddo |
| | Er mwyn hwyluso'r gwaith o gofnodi'n gywir lefelau'r tanwydd, dylid trwsio mesuryddion allanol y tanciau tanwydd yng Nghaergybi ac Amlwch a'u defnyddio i gofnodi darlleniadau'n rheolaidd a chyn ac ar ôl pob danfoniad o danwydd.<br><br>Dylid defnyddio darlleniadau cronnol y mesuryddion i'w cysoni gyda chyfanswm ffigyrau'r tanwydd a ddosbarthwyd yn rheolaidd. | Yn disgwyl ar hyn o bryd am wybodaeth fanwl bellach ynghylch cost trwsio'r system danwydd. | Yn mynd rhagddo |
| 3 | Dylai'r cofnodiadau o ran y tanwydd a ddosbarthwyd gael eu cysoni'n rheolaidd gyda'r cofnodiadau anfonebau ac incwm er mwyn sicrhau fod anfonebau ar gael ar gyfer pob achlysur neu fod yr incwm wedi cael ei gasglu. | Bellach, mae'r cofnodiadau cael eu cysoni ar ddiwedd bob mis.<br><br>Cyllid wedi cael gwybod am ddyledwyr amrywiol ac anfonebau wedi cael eu codi. | Cwblhawyd |
| 4 | Dylai staff arforol sy'n ymwneud â dosbarthu tanwydd gael gwybodaeth reolaidd ynghylch dyledwyr sydd ag anfonebau heb eu talu. Os oes anfonebau nad ydynt wedi eu talu, yna ni ddylid rhoi mwy o danwydd i'r dyledwyr. | Cyllid yn rhoi gwybod i staff arforol bob mis am y dyledwyr hynny sydd ag anfonebau heb eu talu.<br><br>Dim tanwydd yn cael ei roddi i gwsmeriaid sydd heb dalu anfonebau. | Cwblhawyd |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 5 | Dylid rhoi'r gorau i gynhyrchu a rhyddhau 'anfonebau' SAGE a gwahanu dyletswyddau'n unol â'r Rheolau Gweithdrefn Ariannol o ran gweithio allan, siecio a chofnodi dyledion a chasglu dyledion o'r fath. | Daeth yr arfer o ryddhau anfonebau SAGE i ben ym mis Ebrill 2013. | Cwblhawyd |
| 6 | Dylid ystyried trosglwyddo ac / neu ddefnyddio'r 18000 litr o danwydd sydd ar hyn o bryd mewn tanc nad yw'n cael ei ddefnyddio yn Noc Pysgod Caergybi. | Adroddiad cyflwr ar y falfiau rhwng y tri thanc wedi cael ei gomisiynu.<br><br>Disgwyl am wybodaeth fanwl bellach ar hyn o bryd ynghylch costau trwsio'r system danwydd. | Yn mynd rhagddo |
| 7 | Dylid dadansoddi'r codau incwm ar gyfer tanwydd ar y ledjer er mwyn sicrhau fod yr holl incwm a ddangosir yn gysylltiedig â diesel arforol a bod y côd cywir yn cael ei ddefnyddio o ran safle dosbarthu'r tanwydd.<br><br>Dylai gweithdrefnau sy'n gysylltiedig â gwneud taliadau mewn perthynas â diesel arforol drwy'r System Derbyn Arian gael eu hadolygu er mwyn sicrhau fod trywydd archwilio digonol ar gyfer pob taliad yn ôl i'r ffynhonnell. | Caiff y codau ar gyfer incwm tanwydd eu dadansoddi bob mis yn awr er mwyn sicrhau fod yr incwm yn ymddangos dan y côd cywir (cyf: Cyllideb Arforol Sail Sero 2015-16).<br><br>Caiff yr holl daliadau a wneir drwy'r System Derbyn Arian eu cefnogi gan dderbynebion a Thaflenni Log sy'n cael eu codio i gyfateb â'r taliadau gwreiddiol.<br><br>Caiff yr holl Daflenni Log eu hadolygu ar ddiwedd y mis er mwyn sicrhau cysondeb rhwng y diesel a werthwyd a'r incwm a gafwyd. | Cwblhawyd<br><br>Cwblhawyd<br><br>Cwblhawyd |

## 4. <u>CASGLIAD</u>

Gyda gobaith, mae'r tabl uchod a'r cynnydd a wnaed yn rhoi sicrwydd a hyder i'r Pwyllgor Archwilio fod yr Argymhellion yn yr Adroddiad Archwilio wedi cael eu gweithredu a bod systemau, prosesau a phrotocolau wedi cael eu sefydlu i wella llywodraethiant (mewn perthynas â sgôp yr Archwiliad).

Bydd y newidiadau a chydymffurfiaeth y Swyddogion Arforol â nhw, yn cael eu monitro o bryd i'w gilydd er mwyn sicrhau eu bod yn addas i'r pwrpas.

Bydd cwblhau'r argymhellion yn llwyddiannus yn dibynnu ar gostau a'r gyllideb sydd ar gael.